SP Energy Networks



Delwedd gynrychioladol

Ynni Cymunedol

Astudiaethau achos cymorth cymunedol SP Energy Networks

# Ynni Dŵr Congleton

Ynni Cymunedol

# Ynni Dŵr Congleton

Cynllun ynni dŵr micro 65kW yn Swydd Gaer yw Congleton Hydro, sy'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei reoli ganddi. Mae'n cynhyrchu trydan adnewyddadwy o gored Havannah ar afon Dane.

- Cynllun trydan dŵr micro 65kW
- Wedi codi dros £800,000 o gyllid datblygu gan 323 o aelodau sy'n buddsoddi
- Wedi dechrau cynhyrchu trydan yn 2021
- Cynhyrchu 250,000kWh o drydan bob blwyddyn
- Arbed ~44 tunnell o allyriadau $CO_2$e bob blwyddyn1

Dechreuodd y prosiect wrth i grŵp o beirianwyr a oedd wedi ymddeol ddod ynghyd i drafod y potensial ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn Congleton, ac i ddarparu budd cymunedol i bobl leol. Roedd eu syniad yn deillio o ddiddordeb cyffredin yn y dechnoleg, yn ogystal â seilwaith y felin a'r gored hanesyddol yn y rhanbarth. Daeth nifer o heriau i'r amlwg wrth sefydlu'r cynllun ynni dŵr gan gynnwys perchnogaeth tir, caniatâd cynllunio, sicrhau cyllid a lansio eu cynigion cyfranddaliadau yn ystod cyfnod clo cenedlaethol cyntaf Covid-19.

Er mwyn goresgyn heriau'n ymwneud â chynllunio, sicrhaodd y grŵp gefnogaeth y gymuned ehangach drwy ymgysylltu a rhannu gwybodaeth. Roedd hyn yn golygu y rhoddwyd caniatâd i'r cynllun pan gyflwynwyd y penderfyniad gerbron gwrandawiad y pwyllgor cynllunio.



Ynni Dŵr Congleton

[1]Gan ddefnyddio ffactorau allyriadau trydan y grid ar gyfer 2025: www.gov.uk/government/publications/greenhouse-gas-reporting-conversion-factors-2025

# Ynni Dŵr Congleton (parhad)

Trafodwyd y syniad cychwynnol ar gyfer prosiect cyn belled yn ôl â 2006, ond ffurfiwyd y sefydliad a oedd yn gyfrifol am ei gyflawni, sef Cymdeithas Budd Cymunedol Dane Valley Community Energy Limited, yn 2015. Yna, cafwyd cyfnod hir o ddatblygu, gyda'r trydan cyntaf yn cael ei gynhyrchu ar ddiwedd 2021. Mae dealltwriaeth o amserlenni datblygu posibl a sicrhau cefnogaeth y tîm drwy gydol y prosiect wedi bod yn bwysig i sicrhau llwyddiant.

Codwyd cyllid drwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol. Un o fuddion annisgwyl y cyfnodau clo cenedlaethol oedd bod y cyfarfodydd y bwriadwyd eu cynnal yn wreiddiol fel digwyddiadau cyhoeddus i hyrwyddo'r cyfranddaliadau wedi symud i fod ar-lein. O ganlyniad i rym a phoblogrwydd cyfarfodydd ar-lein yn ystod y cyfnod, llwyddodd eu neges a'u cais i gyrraedd yn llawer pellach nag a fyddai wedi bod yn bosibl wyneb i wyneb.

Mae'r holl drydan a gynhyrchir gan Congleton Hydro yn cael ei werthu drwy wifren breifat i ffatri leol un cilometr i ffwrdd. Roedd sicrhau cytundeb a gwerthu trydan i gwsmer busnes ar gyfraddau masnachol yn atgyfnerthu'r achos busnes ar gyfer y cynllun.

Fel Cymdeithas Budd Cymunedol, mae'r grŵp yn rhoi £5,000 y flwyddyn i brosiectau cymunedol lleol megis ysgolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau elusennol. Caiff ceisiadau eu hasesu yn ôl meini prawf a osodir ymlaen llaw, a disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau gwaith monitro ac adrodd yn ôl i Ymddiriedolaeth Gymunedol Ynni Dŵr a Solar Congleton ar ddiwedd y prosiect.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r prosiect wedi cael ei ddefnyddio fel adnodd addysgiadol i'r gymuned, gyda theithiau rheolaidd o gwmpas y safle. Mae byrddau gwybodaeth wedi'u gosod wrth agosáu at yr adeilad, yn adrodd stori'r safle, yr afon a hanes coredau a pham maen nhw'n cael eu defnyddio. Mae Congleton Hydro yn dal i fod yn enghraifft wych o brosiect ynni adnewyddadwy cymunedol, gyda busnes ffyniannus a thîm o wirfoddolwyr sy'n clirio rhwyllau'r system ynni dŵr yn rheolaidd ac yn ail-wylltio'r ardal o amgylch y safle.

Mae'r heriau y mae'r grŵp cymunedol yn dymuno eu goresgyn yn y dyfodol yn cynnwys datblygu Cytundeb Prynu Pŵer a cheisio gweithio gyda Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu ar drefniadau cyfryngol.

I grwpiau sy'n dymuno cynnal eu cynllun ynni dŵr eu hunain, argymhellir y dylid dad-risgio'r prosiect cymaint â phosibl. Mae hyn yn cynnwys casglu'r data angenrheidiol fel astudiaethau hydrolegol, cysylltiad â'r grid, arolygon safle ac asesiadau peirianneg. Mae dad-risgio ariannol yn cynnwys model ariannol cadarn, sicrhau grantiau neu gyllid datblygu, a gallai dad-risgio rheoleiddio gynnwys caniatâd cynllunio, trwyddedau neu asesiadau o'r effaith amgylcheddol.



Representative imagery

SP Energy Networks

SP Energy Networks

Ynni Cymunedol

# Astudiaethau achos cymorth cymunedol SP Energy Networks

# Ynni Dŵr Congleton

communityenergy@spenergynetworks.co.uk